| Cyfenw<br>*Surname* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enwau Eraill<br>*Other Names* | | 0 |

**TGAU**

4551/02

# CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN)
# *WELSH SECOND LANGUAGE (FULL COURSE)*

**DARLLEN AC YSGRIFENNU**

***READING AND WRITING***

**HAEN UWCH**
***HIGHER TIER***

P.M. DYDD MAWRTH, 21 Mehefin 2011
*P.M. TUESDAY, 21 June 2011*

1 awr

| Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cwestiwn** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| **1** | | |
| **2** | | |
| **3** | | |
| **4** | | |

4551
020001

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du.
*Use black ink or black ball-point pen.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau darllen fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

J U N 1 1 4 5 5 1 0 2 0 1

CJ*(S11-4551-02)

**1.** Darllenwch y cyfweliad isod gydag Alex Jones ac yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read the interview below with Alex Jones and then complete the tasks* ***in Welsh****.*

[24 + ✓ = 6] = **[30]**



*Croeso i'r stiwdio Alex Jones. Ble cawsoch chi'ch geni a'ch magu?*
Diolch. Ces i fy ngeni a'm magu yn Rhydaman, yn sir Gaerfyrddin. Mae un chwaer gyda fi, Jennie, mae hi'n ifancach na fi.

*Ydy'ch rhieni'n siarad Cymraeg?*
Na, Saesneg roedden ni'n siarad yn y tŷ. Ond, es i i ysgol gynradd Gymraeg ac yna i Ysgol Maes yr Yrfa a gwneud fy ngwaith ysgol yn Gymraeg.

*Beth oedd eich hobïau pan oeddech chi'n ifanc?*
Roeddwn i'n hoffi dawnsio ac roeddwn i'n cael gwersi *ballet* bob wythnos. Mae dawnsio *ballet* yn dda achos mae'n helpu chi berfformio ar y llwyfan.

*Ac ar ôl gadael ysgol?*
Es i i Brifysgol Aberystwyth i astudio Theatr, Ffilm a Theledu. Mwynheuais y tair blynedd yn fawr. Un peth wnes i'n wahanol i bawb arall oedd gwneud fy arholiadau ar ddiwedd y drydedd flwyddyn, arholiadau gradd, yn Magaluf.

*Rydych chi nawr yn gwneud llawer o raglenni ar y teledu.*
Ydw, dw i'n lwcus iawn. Dw i'n gwneud rhaglen *Tocyn* gydag Aled Sam. Dw i'n hoffi'r rhaglen achos dw i wrth fy modd yn teithio. Hefyd, rydw i wedi gweld llawer o ryfeddodau'r byd. Mae rhaglen *Jonathan* hefyd yn llawer iawn o hwyl achos mae llawer o chwaraewyr rygbi enwog ar y rhaglen fel Jamie Roberts, mae e'n bishyn.

*Rydych chi ar y rhaglen The One Show ar BBC 1 bob nos erbyn hyn gyda Matt Baker.*
Ydw ac yn mwynhau yn fawr. Mae Matt a fi'n dod ymlaen yn dda iawn ac mae'r ddau ohonon ni'n hoffi drama gerdd a *Pizza Express*!

*Sut gawsoch chi'r swydd?*
Wel gwelodd golygydd y rhaglen *One Show* fi ar *You Tube*, a ffoniodd e fi i ddod am gyfweliad. Mae rhai pobl yn dweud fy mod i wedi cael y swydd am fy mod i'n debyg i Christine Bleakley oedd ar y sioe o fy mlaen i gyda Adrian Chiles. Wel dydw i ddim yn poeni am hynny o gwbl achos mae Christine yn dalentog iawn.

*Oeddech chi'n nerfus ar y dechrau?*
Oeddwn wir, ond dw i'n llai nerfus nawr ond yn dal i ddysgu pethau newydd bob dydd. Mae bywyd yn ddiddorol iawn.

*Diolch Alex a phob lwc yn y dyfodol.*

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Llenwch y proffil am Alex Jones **yn Gymraeg**.
*Complete the profile about Alex Jones* ***in Welsh.*** [24]

Geni a magu. [2]

..........

Enw ei chwaer. [1]

..........

Dysgu siarad Cymraeg. Ble? [3]

..........

Dawnsio *ballet* yn dda. Pam? [3]

..........

Astudio beth yn Aberystwyth. [6]

(i) ..........

(ii) ..........

(iii) ..........

Gwneud ei harholiadau gradd. Ble? [1]

..........

Yn hoffi gweithio ar y rhaglen *Tocyn*. Pam? [6]

(i) ..........

(ii) ..........

Yn mwynhau rhaglen *Jonathan* yn fawr. Pam? [2]

..........

..........

(ii) Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg **yn Gymraeg** yn y 3ydd person yn rhoi dwy ffaith am beth mae Alex yn ddweud yn y cyfweliad am *The One Show.*

*Write* ***two*** *sentences* ***in Welsh*** *in the 3rd person giving two facts about what Alex says in her interview about The One Show.* [✓ = 6]

1 ..........

..........

2 ..........

..........

4551
020003

**2.** Rydych chi ar wyliau gwersylla yng Ngogledd Cymru. Ar y ffordd gartref rydych chi'n edrych ar y lluniau rydych chi wedi tynnu. Anfonwch lythyr **yn Gymraeg** at eich rhieni yn dweud beth ydych chi wedi mwynhau a ddim wedi mwynhau am y gwyliau. Rhaid i chi gyfeirio at o leiaf 6 o'r lluniau. Cofiwch osod y llythyr allan yn briodol.
*You are on a camping holiday in North Wales. On the way home you look at the photos you've taken. Send a letter* ***in Welsh*** *to your parents saying what you've enjoyed and not enjoyed about the holiday. You must refer to at least 6 pictures. Remember to set out the letter appropriately.*

**[30]**



Arholwr yn unig
*Examiner only*

4551
020005

Arholwr yn unig
*Examiner only*

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**3.** (i) Darllenwch beth mae Tim a Sue wedi ysgrifennu yng nghylchgrawn yr ysgol. Yna llenwch y gridiau **yn Gymraeg**.
*Read what Tim and Sue have written in the school magazine. Then fill the grids* ***in Welsh****.*
[32 + ✓ = 8] = **[40]**

**Tim**

Dw i wrth fy modd yn prynu dillad ffasiynol. Unwaith bob mis mae Eluned, fy nghariad, a fi yn mynd i Abertawe i edrych ar y dillad ffasiynol yn y siopau mawr. Mae'n gret edrych ar y ffasiwn diweddaraf a chael cyfle i drio'r dillad a chael barn Eluned am y pethau sy'n addas i fi.
Mae'r ysgol yn cynnal eisteddfod bob blwyddyn a dw i'n meddwl ei fod yn beth da. Mae'n rhoi cyfle i bawb gymryd rhan ac yn helpu i ddatblygu talentau newydd. Mae llawer o bobl ifanc fel Katherine Jenkins wedi dechrau canu yn eisteddfod yr ysgol.
Rydyn ni yn yr ysgol yn casglu arian bob blwyddyn i'r hospis plant lleol. Dw i'n meddwl y dylai pobl ifanc wneud gwaith elusennol achos mae'n beth da i bobl ifanc helpu pobl llai ffodus na nhw. Rydw i'n gwneud gwaith elusennol bob dydd Sadwrn trwy weithio yn siop Oxfam ac yn helpu codi arian i gynnal ysgol yn Zambia.

| Pynciau | Hoffi/Ddim yn hoffi | Rheswm |
|---|---|---|
| Dilyn y ffasiwn | [1] | [4] |
| Eisteddfod yr ysgol | [1] | [4] |
| Gwaith elusennol | [1] | [4] |

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**Sue**

Dw i'n meddwl bod dilyn y ffasiwn yn beth twp achos mae'n llawer rhy ddrud. Yn aml iawn mae'r siopau mawr yn newid y ffasiwn er mwyn gwneud arian – a dydy rhai pobl twp ddim yn gweld hyn. Does dim rhaid dilyn popeth sy yn y ffasiwn i edrych yn dda. Mae rhai pethau sy yn y ffasiwn ar hyn o bryd yn edrych yn ofnadwy.
Mae eisteddfod yr ysgol yn ddiflas iawn achos beth sy gyda chi ydy y plant mwyaf talentog yn canu neu llefaru yr un peth o hyd ac o hyd. Mae eisiau newid yr eisteddfod i fod yn fwy tebyg i'r *X Factor*.
Dw i ddim yn cytuno gyda codi arian i elusennau achos dydy llawer o'r arian ddim yn cyrraedd y bobl sy ei angen. Mae llawer iawn o'r arian yn mynd i boced y bobl sy'n gweithio i'r elusen. Os dydych chi ddim yn fy nghredu i, edrychwch ar gyflogau'r cyfarwyddwyr!

| Pynciau | Hoffi/Ddim yn hoffi | Rheswm |
|---|---|---|
| Dilyn y ffasiwn | [1] | [4] |
| Eisteddfod yr ysgol | [1] | [4] |
| Gwaith elusennol | [1] | [4] |

0 8

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(ii) Nawr ysgrifennwch eich barn chi **yn Gymraeg** isod.
*Now write your opinion **in Welsh** below.* [2 + ✓ = 8] = **[10]**

Eich barn chi – cofiwch gyfeirio at y rhesymau yn y darnau.
*Your opinion – remember to refer to the reasons in the passages.*

Dilyn y ffasiwn – ydych chi'n cytuno gyda Tim neu Sue?
*do you agree with Tim or Sue?*

Eisteddfod yr ysgol – ydych chi'n cytuno gyda Tim neu Sue?
*do you agree with Tim or Sue?*

Gwaith elusennol – ydych chi'n cytuno gyda Tim neu Sue?
*do you agree with Tim or Sue?*

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



Trosodd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**4.** Ysgrifennwch ar **un** o'r canlynol (tua 150 o eiriau).
*Write on* **one** *of the following (about 150 words).* **[40]**

(i) Fy Nghymru i – pethau da a phethau drwg.
*My Wales – good and bad things.*

(ii) Mae chwaraeon a chwaraewyr yn cael llawer iawn gormod o sylw ar y cyfryngau.
*Sport and sports players have far too much coverage in the media.*

(iii) Achlysur arbennig yn yr ysgol neu yn y gymuned.
*Special occasion in the school or in the community.*

Arholwr yn unig
*Examiner only*